

Ymatebion i'r ymgynghoriad ar y canllawiau drafft: Cadw at ffiniau rhywiol priodol a gofalu am gleifion mewn amgylchiadau agored i niwed

Tachwedd 2025

Rydym wedi golygu data cyfranogwyr er mwyn iddynt fod yn ddienw yn unol â'n rhwymedigaethau GDPR a'n polisi ymgynghori.

Atebydd 1

Cwestiynau Cyffredinol

Ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad?

Nac ydw

Pa gategori o ymatebydd sy'n eich disgrifio chi orau?

Optegydd cyflenwi

C1. Sut gallwn ni wneud y canllawiau'n gliriach?

Mae'r canllawiau'n ymddangos yn glir ond yn methu'r pwynt. Fel rhywun y mae aelodau o'r teulu wedi cael eu cam-drin gan weithwyr gofal iechyd, hyd at a chan gynnwys gofalwr yn gwneud cais am atwrneiaeth i gael mynediad at arian modryb, ac sydd wedi cael ei gweld gan reolwr ei llety gwarchod; yr hyn sydd ei angen mewn gwirionedd yw mwy o reoleiddio ar bobl nad ydynt yn aelodau cofrestredig drwy ddod â mwy o gleifion o fewn categorïau cyfyngedig ar gyfer cyflenwi. Byddwn yn dadlau y dylai pawb sy'n ystyried eu hunain yn anabl o ran dysgu, neu sydd ag unrhyw anabledd arall, ddod o fewn cylch gwaith optegwyr cyflenwi / optometryddion cofrestredig ar gyfer cyflenwi. Mae grwpiau agored i niwed eraill yn cynnwys y rheini sydd wedi caniatáu atwrneiaeth ar gyfer eu hiechyd a/neu eu cyllid. Gan fod y rhan fwyaf o'r cleifion hyn yn gymwys i gael taleb y GIG, ateb syml fyddai cyfyngu ar gyflenwi pob claf GOS3 fel y mae gyda phlant ac oedolion sydd wedi'u cofrestru â nam ar eu golwg i gofrestreion y Cyngor Optegol Cyffredinol neu'r rhai sy'n gweithio dan oruchwyliaeth agos fel optegwyr dan hyfforddiant neu gynorthwywyr optegol hyfforddedig ac ardystiedig.

C2. A oes unrhyw beth ar goll o'r canllawiau neu a oes unrhyw beth arall y dylem ei ystyried?

"Y prif beth sydd ar goll yw cyfyngiad pellach ar gyflawni i gleifion sy'n agored i niwed y tu hwnt i'r rheini sy'n cael eu cydnabod ar hyn o bryd gan y Ddeddf Optegwyr a rheoliadau'r Cyngor Optegol Cyffredinol (plant dan 16 oed ac oedolion sydd wedi cofrestru gyda'u hawdurdod lleol fel rhai sydd â nam ar eu golwg neu nam difrifol ar eu golwg.) Yr hyn sydd ei angen mewn gwirionedd yw mwy o reoleiddio ar unigolion nad ydynt wedi cofrestru drwy ddod â mwy o gleifion o fewn categorïau cyfyngedig ar gyfer cyflenwi. Byddwn yn dadlau y dylai pawb sy'n ystyried eu hunain yn anabl o ran dysgu, neu sydd ag unrhyw anabledd arall, ddod o fewn cylch gwaith optegwyr cyflenwi / optometryddion cofrestredig ar gyfer cyflenwi. Gan fod y rhan fwyaf o'r cleifion hyn yn gymwys i gael taleb y GIG, ateb syml fyddai cyfyngu ar gyflenwi pob claf GOS3 fel y mae gyda phlant ac oedolion sydd wedi'u cofrestru â nam ar eu golwg i gofrestreion y Cyngor Optegol Cyffredinol neu'r rhai sy'n gweithio dan oruchwyliaeth agos fel optegwyr dan hyfforddiant neu gynorthwywyr optegol

hyfforddedig ac ardystiedig. Yn ogystal â hynny, dylai cleifion preifat sy'n gymwys i gael atodiad lens gymhleth GOS3 (presgripsiynau $\geq \pm 10.00D$ sydd fwy neu lai yn ddall heb sbectol), a chleifion sy'n prynu sbectol diogelwch i amddiffyn rhag anaf hefyd ddod o fewn categorïau cyfyngedig o ddosbarthu presgripsiynau. Wrth oruchwyllo'r gwaith o gyflawni gan unigolion nad ydynt wedi cofrestru, dylai fod yn ofynnol, fel sy'n wir am fferylliaeth a deintyddiaeth, i gynorthwyywyr optegol fod wedi cael lefel sylfaenol o hyfforddiant cyn iddynt drin cleifion go iawn, boed hynny'n gyfyngedig neu fel arall. Cam-drin ariannol yw'r cam-drin mwyaf cyffredin yn ein sector ac mae llawer o gleifion yn ymwybodol o'u dewisiadau na'u bod wedi cael eu cam-drin.

<https://www.lancashiresafeguarding.org.uk/media/1451/V2-Appendix-5-Safeguarding-Concerns-Guidance-Financial-Abuse-030419.pdf>.

<https://www.ageuk.org.uk/information-advice/health-wellbeing/relationships-family/protection-from-abuse/financial-abuse/>

Mae cleifion sydd â phresgripsiynau uchel yn aml yn cael eu hanwybyddu, yn enwedig gan ddarparwyr cartref ac unigolion nad ydynt wedi cofrestru, ac yn waeth na hynny byddant yn aml yn cael sbectol nad yw'n addas i'r diben. Rwyf wedi gweld llawer o achosion o sbectol diogelwch nad ydynt wedi'u gosod yn gywir ac sy'n peri perygl i'r sawl sy'n eu gwisgo a ddylai elwa o leiaf o yswiriant indemniad proffesiynol cofrestrai, a ddylai fod yn y safle o leiaf ac mewn sefyllfa i ymyrryd, ac wedi dilysu'r sbectol yn bersonol cyn eu cyflwyno fel sy'n digwydd gyda phlant. “

C3. Sut gallwn ni wneud y canllawiau'n gliriach?

Peidiwch â defnyddio termau fel 'y mwyafrif byd-eang', nid yw'n derm cyffredin, mae'n amwys o ran ystyr, mae'n beio pobl gyffredin am weithredoedd y wladwriaeth a busnesau mawr heddiw ac yn y gorffennol, ac yn eu harwain i deimlo'n ddi-rym ac yn bryderus nad oes eu heisiau mewn cymdeithas - fel gwryw heterorywiol gwyn gyda gwallt llwyd, dydw i ddim ar fai am yr holl ragfarn yn y byd ond mae'n ymddangos ei fod yn iawn cael fy nhrin yn rhagfarnllyd.

C4. A oes unrhyw beth ar goll o'r canllawiau neu a oes unrhyw beth arall y dylem ei ystyried?

Os na allwch chi newid y Ddeddf Optegwyr ar hyn o bryd, allwch chi argymhell bod cleifion agored i niwed bob amser yn cael eu gweld gan neu o dan oruchwyliaeth un o gofrestreion y Cyngor Optegol Cyffredinol a bod goruchwyliaeth yn golygu bod ar y safle ac mewn sefyllfa i ymyrryd. Yn ddiweddarach, gallai'r Cyngor Optegol Cyffredinol ddod â'r grwpiau agored i niwed i gategorïau cyfyngedig ar gyfer dosbarthu mewn Deddf Optegwyr newydd i'w diogelu rhag cam-drin ariannol a mathau eraill o gam-drin. Dylai categorïau cyfyngedig newydd gynnwys: plant, oedolion sydd wedi'u cofrestru sydd â nam (difrifol) ar eu golwg, oedolion ag anawsterau dysgu, unrhyw un

sydd wedi'i gofrestru'n anabl, cleifion â lensys cymhleth fel y'u diffinnir gan GOS ($\geq \pm 10.00D$, sbectol deuffocal a reolir gan brism ac ati), sbectol ddiogelwch lle gallai ei ffitio'n wael arwain at anaf, colli llygad, neu farwolaeth.

C5. A fydd y newidiadau sy'n cael eu cynnig yn cael effaith, boed hynny'n rhai cadarnhaol neu negyddol, ar y canlynol:

(a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Ddim yn siŵr

(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Dim Ymateb

Rhowch fanylion ychwanegol.

Dim Ymateb

C6. A fyddai modd diwygio'r newidiadau sy'n cael eu cynnig er mwyn iddynt gael effaith gadarnhaol, neu fwy cadarnhaol, ar y canlynol:

(a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Ddim yn siŵr

(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Ddim yn siŵr

Rhowch fanylion ychwanegol.

Dim Ymateb

C7. A fyddai modd diwygio'r newidiadau sy'n cael eu cynnig er mwyn iddynt beidio â chael effaith negyddol, neu gael effaith lai negyddol, ar y canlynol:

(a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Ddim yn siŵr

(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Ddim yn siŵr

Rhowch fanylion ychwanegol.

Dim Ymateb

C8. A oes unrhyw agweddau ar ein cynigion a allai wahaniaethu yn erbyn rhanddeiliaid sydd â nodweddion penodol?

"a) Oes"

Rhowch fanylion ychwanegol.

Mae angen diogelu pobl sy'n byw gydag anableddau dysgu ac anableddau eraill yn well drwy sicrhau mai dim ond un o gofrestreion y Cyngor Optegol Cyffredinol sy'n gallu eu darparu neu eu goruchwyllo. Dylai'r canllawiau gydnabod mai cam-drin ariannol yw'r cam-drin mwyaf cyffredin yn ein sector, ac mae'n ymestyn ymhell y tu hwnt i dwyllo cleifion drwy werthu mwy iddynt nag y mae arnynt ei angen neu y gallant ei fforddio. Gadawodd fy hen fodryb £10,000 i'w hoptegydd yn ei hewyllys? A gafodd ei gorfodi? Llwyddodd gofalwr modryb arall i sicrhau atwrneiaeth ar gyfer ei harian a'i hiechyd a dim ond ar ddamwain y cafodd ei dal cyn gwneud cynnig ar dŷ a oedd i'w adael iddi yn yr ewyllys. Yn ystod gwaith cartref, gofynnir yn aml i ymarferwyr roi bag llaw'r claf iddynt a chyfrif arian o bwrs, llenwi sieciau ar ran y claf, cymryd arian sy'n cael ei gadw y tu ôl i'r cloc ar y lle tân ac ati. Rhaid cydnabod bod sbectol fel arfer yn cael ei danfon gan gynorthwydd optegol ar ei ben ei hun sydd ar gyflog isel i glaf ar ei ben ei hun yn ei gartref ei hun. Alla i ddim cofio faint o bobl rydw i wedi'u diswyddo/wedi eu gweld yn cael eu diswyddo am anonestrwydd dros y blynyddoedd ac maen nhw bob amser yn cael swyddi yn ôl yn y sector optegol. Mae hyd yn oed y cofrestreion a gafodd eu dileu oddi ar y gofrestr yn cael gwaith fel cynorthwywyr cyflawni optegol ac yn cael eu dennu i sefyllfaoedd lle gallant gam-drin unigolion agored i niwed, yn bennaf er budd ariannol. Wrth ddileu cofrestrai oddi ar y gofrestr, dylid hefyd eu cosbi fel na allant werthu sbectol mewn unrhyw ffordd. Yn ddiweddar, yn dilyn achosion addasrwydd i ymarfer, mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol wedi dechrau gwahardd cofrestreion rhag gweld plant. Dylai hefyd eu gwahardd rhag gweld cleifion yn eu cartrefi eu hunain neu weld unrhyw glaf mewn practis ar ei ben ei hun heb aelodau eraill o staff ar y safle.

C9. Os oes, a oes unrhyw agweddau ar ein cynigion a allai gael effaith gadarnhaol ar randdeiliaid sydd â nodweddion penodol?

"a) Oes"

Rhowch fanylion ychwanegol.

Byddwn yn gobeithio bellach na fyddai awgrymiadau rhywiol digroeso i gydweithwyr, nac unrhyw awgrymiadau rhywiol tuag at gleifion, yn cael ei ganiatáu.

Allwn ni gyhoeddi eich ymateb?

Gallwch, ond cadwch fy enw a/neu enw fy sefydliad yn breifat

Atebydd 2

Cwestiynau Cyffredinol

Ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad?

Nac ydw

Pa gategori o ymatebydd sy'n eich disgrifio chi orau?

Optometrydd presgripsiynu therapiwtig

C1. Sut gallwn ni wneud y canllawiau'n gliriach?

Maen nhw'n glir

C2. A oes unrhyw beth ar goll o'r canllawiau neu a oes unrhyw beth arall y dylem ei ystyried?

Nac oes

C3. Sut gallwn ni wneud y canllawiau'n gliriach?

Maen nhw'n glir

C4. A oes unrhyw beth ar goll o'r canllawiau neu a oes unrhyw beth arall y dylem ei ystyried?

Nac oes

C5. A fydd y newidiadau sy'n cael eu cynnig yn cael effaith, boed hynny'n rhai cadarnhaol neu negyddol, ar y canlynol:

(a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Ddim yn siŵr

(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Ddim yn siŵr

Rhowch fanylion ychwanegol.

Dim Ymateb

C6. A fyddai modd diwygio'r newidiadau sy'n cael eu cynnig er mwyn iddynt gael effaith gadarnhaol, neu fwy cadarnhaol, ar y canlynol:

(a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Ddim yn siŵr

(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Ddim yn siŵr

Rhowch fanylion ychwanegol.

Dim Ymateb

C7. A fyddai modd diwygio'r newidiadau sy'n cael eu cynnig er mwyn iddynt beidio â chael effaith negyddol, neu gael effaith lai negyddol, ar y canlynol

(a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Ddim yn siŵr

(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Ddim yn siŵr

Rhowch fanylion ychwanegol.

Dim Ymateb

C8. A oes unrhyw agweddau ar ein cynigion a allai wahaniaethu yn erbyn rhanddeiliaid sydd â nodweddion penodol?

“b) Nac oes”

Rhowch fanylion ychwanegol.

Dim ymateb

C9. Os oes, a oes unrhyw agweddau ar ein cynigion a allai gael effaith cadarnhaol ar randdeiliaid sydd â nodweddion penodol?

“b) Nac oes”

Rhowch fanylion ychwanegol.

Dim ymateb

Allwn ni gyhoeddi eich ymateb?

Gallwch

Atebydd 3

Cwestiynau Cyffredinol

Ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad?

Nac ydw

Beth yw enw'r sefydliad rydych chi'n ymateb ar ei ran?

Dim ymateb

Pa gategori sy'n disgrifio'r sefydliad rydych chi'n ymateb ar ei ran orau?

Dim ymateb

Pa gategori o ymatebydd sy'n eich disgrifio chi orau?

Optometrydd

C1. Sut gallwn ni wneud y canllawiau'n gliriach?

Dim ymateb

C2. A oes unrhyw beth ar goll o'r canllawiau neu a oes unrhyw beth arall y dylem ei ystyried?

"Eitem 14, enghreifftiau o amgylchiadau agored i niwed. Rhaid cynnwys ANABLEDDAU dysgu ac ANABLEDDAU corfforol. Mae anawsterau dysgu, sydd wedi'u cynnwys, yn ddibwys o'u cymharu

Eitem 20 "Mae cleifion o gefndir y mwyafrif byd-eang yn llai tebygol o fod yn fodlon â'r profiad cyffredinol o ymweld ag optegydd/optometryddion". Ai gwall argraffu yw hwn - ai LLEIAFRIFOL ydy o? Nid yw'n gwneud synnwyr bod y mwyafrif yn anfodlon.

Eitem 33. Dylai "darparu gwybodaeth ysgrifenedig am y camau neu gynlluniau triniaeth nesaf" ddweud "darparu gwybodaeth ysgrifenedig HYGyrch." Mae hyn yn berthnasol i gleifion sydd â dyslecsia, dementia, golwg gwan yn ogystal â'r rheini sydd ag anableddau dysgu."

C3. Sut gallwn ni wneud y canllawiau'n gliriach?

Dim ymateb

C4. A oes unrhyw beth ar goll o'r canllawiau neu a oes unrhyw beth arall y dylem ei ystyried?

Dim ymateb

C5. A fydd y newidiadau sy'n cael eu cynnig yn cael effaith, boed hynny'n rhai cadarnhaol neu negyddol, ar y canlynol:

- (a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Dim ymateb

Rhowch fanylion ychwanegol.

Dim Ymateb

C6. A fyddai modd diwygio'r newidiadau sy'n cael eu cynnig er mwyn iddynt gael effaith gadarnhaol, neu fwy cadarnhaol, ar y canlynol:

- (a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Dim ymateb

Rhowch fanylion ychwanegol.

Dim Ymateb

C7. A fyddai modd diwygio'r newidiadau sy'n cael eu cynnig er mwyn iddynt beidio â chael effaith negyddol, neu gael effaith lai negyddol, ar y canlynol:

- (a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Dim ymateb

Rhowch fanylion ychwanegol.

Dim Ymateb

C8. A oes unrhyw agweddau ar ein cynigion a allai wahaniaethu yn erbyn rhanddeiliaid sydd â nodweddion penodol?

“b) Nac oes”

Rhowch fanylion ychwanegol.

Dim ymateb

C9. Os oes, a oes unrhyw agweddau ar ein cynigion a allai gael effaith gadarnhaol ar randdeiliaid sydd â nodweddion penodol?

Dim ymateb

Rhowch fanylion ychwanegol.

Dim ymateb

Allwn ni gyhoeddi eich ymateb?

Gallwch

Atebydd 4

Ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad?

Ydw

Pa gategori sy'n disgrifio'r sefydliad rydych chi'n ymateb ar ei ran orau?

Corff cynrychioli/proffesiynol optegol

C1. Sut gallwn ni wneud y canllawiau'n gliriach?

“Dyma ganllawiau clir a defnyddiol sydd, yn ein barn ni, yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng eglurder a manylion - gan ei wneud yn ddefnyddiol i bawb.”

Sylwadau:

Paragraff 6 - a ddylai hyn ddweud “yn seiliedig ar eu hanghenion a'u dymuniadau” - fel arall, mae'n swnio'n nawddoglyd?

Paragraff 10 - gan fod y paragraff hwn wedi'i gyfeirio at bob cofrestrai, mae dweud “eich gwaith” yn broblemus oherwydd gellid dehongli ei fod yn berthnasol i unigolion cofrestredig yn unig. Byddem yn awgrymu newid i “eich bod yn darparu gofal llygaid” yn lle hynny.

Paragraff 13 - a ddylai hyn ddweud “mewn perygl o gael ei gam-drin a'i esgeuluso (gan gynnwys hunan-esgeulustod)”?

Gellid dehongli paragraff 15 - “cleifion mewn gofal cartref” fel cartrefi preswyl/gofal. A ddylai hyn ddweud “derbyn gofal mewn lleoliadau cartref”?

Paragraff - gallai hefyd fod yn ddefnyddiol cyfeirio at “ganllawiau diogelu” y mae llawer ohonynt sy'n berthnasol i ofal llygaid (gan gynnwys canllawiau sy'n benodol i'r sector) sef “yn unol â pholisïau eich gweithle, gofynion cyfreithiol a chanllawiau diogelu ac amddiffyn.”

C2. A oes unrhyw beth ar goll o'r canllawiau neu a oes unrhyw beth arall y dylem ei ystyried?

Na, ond efallai y byddai'n ddefnyddiol crybwyll canllawiau Diogelu fel yn ein hymateb i Gwestiwn 1 uchod. Mae'n hawdd anghofio bod cael eich radicaleiddio (gan gynnwys hunan-radicaleiddio) hefyd yn eich gwneud yn agored i niwed ac yn fath o gamfanteisio a cham-drin.

C3. Sut gallwn ni wneud y canllawiau'n gliriach?

“Mae hwn yn ganllaw clir a defnyddiol ac yn ddrafft da. Sylwadau:

A ddylai paragraff 36 ddweud “peidio â symud ymlaen na rhwystro”?

Paragraff 40 - mae'r frawddeg gyntaf yn aneglur; mae'n ymddangos ei bod yn berthnasol i gyfrinachedd cleifion fel ym mharagraffau 37-39 ond yna'n sôn am

roi gwybod i'r claf os na ellir cael cydsyniad? A yw hwn yn ganiatâd trydydd parti?

Paragraff 41 - awgrymu ymddygiad(au) fel ym mharagraff 42 gan y gall profiadau fod yn gronnus ac nid oes angen i gofrestreion nodi un digwyddiad mawr

Dylai paragraff 49 ddweud: “sydd wedi profi neu'n credu eu bod wedi profi” gan y gall y sioc fod mor fawr hyd yn oed pe bai wedi'i dychmygu neu ei chamgymryd'

Paragraff 50 - “nawr” - A yw'n well dweud “ers Hydref 2024”?

C4. A oes unrhyw beth ar goll o'r canllawiau neu a oes unrhyw beth arall y dylem ei ystyried?

Ddim yn ein barn ni.

C5. A fydd y newidiadau sy'n cael eu cynnig yn cael effaith, boed hynny'n rhai cadarnhaol neu negyddol, ar y canlynol:

(a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

Byddant

(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Byddant

Rhowch fanylion ychwanegol.

Byddant a) a b). Bydd cyhoeddi yn Gymraeg yn gwneud y canllawiau'n haws eu defnyddio a'u trafod ar gyfer siaradwyr Cymraeg brodorol a bydd yn helpu i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith dysgwyr ac yn ehangach.

C6. A fyddai modd diwygio'r newidiadau sy'n cael eu cynnig er mwyn iddynt gael effaith gadarnhaol, neu fwy cadarnhaol, ar y canlynol:

(a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

Na

(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Na

Rhowch fanylion ychwanegol.

Dim ymateb

C7. A fyddai modd diwygio'r newidiadau sy'n cael eu cynnig er mwyn iddynt beidio â chael effaith negyddol, neu gael effaith lai negyddol, ar y canlynol:

(a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

Na

(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Na

Rhowch fanylion ychwanegol.

Dim ymateb

C8. A oes unrhyw agweddau ar ein cynigion a allai wahaniaethu yn erbyn rhanddeiliaid sydd â nodweddion penodol?

b) Nac oes"

Rhowch fanylion ychwanegol.

C9. Os oes, a oes unrhyw agweddau ar ein cynigion a allai gael effaith gadarnhaol ar randdeiliaid sydd â nodweddion penodol?

"a) Oes"

Rhowch fanylion ychwanegol.

"a) "Oes - byddant yn annog y sector bob amser i fod yn ymwybodol o nodweddion gwarchodedig (yn enwedig os nad ydynt yn amlwg ar unwaith) a gallant annog pobl â nodweddion gwarchodedig i fod yn fwy hyderus ynghylch siarad am y ffactorau sy'n achosi iddynt fod yn agored i niwed a/neu roi gwybod am unrhyw ymddygiad rhywiol annerbyniol. Bydd hyn er lles cleifion a'r proffesiynau yn y pen draw. "

Allwn ni gyhoeddi eich ymateb?

Gallwch

Atebydd 5

Cwestiynau Cyffredinol

Ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad?

Ydw

Paategori sy'n disgrifio'r sefydliad rydych chi'n ymateb ar ei ran orau?

Arall

Teipiwch eich ateb

Corff cynrychiadol cleifion a darparwr gwasanaethau optegol

Paategori o ymatebydd sy'n eich disgrifio chi orau?

Dim ymateb

C1. Sut gallwn ni wneud y canllawiau'n gliriach?

“Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Cyngor Optegol Cyffredinol yn cynhyrchu canllawiau ychwanegol i gofrestreion ar ofalu am gleifion mewn amgylchiadau agored i niwed, i ategu'r safonau presennol.” Mae'r dystiolaeth yn dangos bod pobl mewn amgylchiadau agored i niwed, gan gynnwys pobl ag anableddau dysgu, yn llai bodlon â'u gofal optegol nag ymysg y boblogaeth gyffredinol, ac mae cofrestreion hefyd wedi datgan eu bod yn agored i ragor o gyngor a chymorth yn y maes hwn i helpu eu hymarfer proffesiynol.

Yn yr amser cyswllt byr a allai fod gan gofrestreion, rydym yn cydnabod efallai na fydd yn bosibl nodi a oes gan y claf ffactorau sydd yn ei wneud yn agored i niwed, efallai na fydd yn dymuno datgelu ei amgylchiadau, efallai y bydd ganddo bryderon am gyfrinachedd, ac ni fydd yn dymuno i ragdybiaethau gael eu gwneud am y ffactorau hynny. Rydym yn cytuno y bydd hwn yn fater o farn broffesiynol ac ni fyddai'n ddoeth holi ymhellach yn ddiangen.

Fodd bynnag, efallai y byddai'n werth ailadrodd, ar gyfer cleifion sydd ag anabledd, y byddai disgwyl bob amser i'r cofrestrai sicrhau y gofynnir iddo a oes angen unrhyw addasiadau rhesymol arnynt, nad yw hyn yn wybodaeth ddiangen ond yn rhywbeth sy'n ofynnol dan gyfraith y DU.

Mae adegau yn y canllawiau drafft lle mae 'addasiadau rhesymol' yn cael eu cyfuno ag 'amgylchiadau agored i niwed' ar gyfer cofrestreion ac ar gyfer busnesau. Fodd bynnag, nid yw'r gyfraith yn cymhwyso addasiadau rhesymol i bawb mewn amgylchiadau agored i niwed. Er ei bod yn arfer proffesiynol da gofyn am addasiadau y gallai fod eu hangen ar unrhyw glaf (er enghraifft, i roi gofal sy'n ddiwylliannol gymwys, a bod yn ymwybodol o nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010), mae'n bwysig bod y Cyngor Optegol Cyffredinol yn gwahaniaethu rhwng y ffaith bod iaith 'addasiad rhesymol' yn benodol berthnasol i'r gyfraith ar anabledd.

Gallai hyn hefyd gysylltu â'r angen (gofyniad) i gleifion gael nodyn 'addasiad rhesymol' ar eu cofnodion GIG, sydd yn ei dro yn galluogi ymarferwyr a busnesau i gadw at ofynion Safon Gwybodaeth Hygyrch y GIG wrth sicrhau bod cleifion yn cyfathrebu yn y fformat cywir ar eu cyfer.

Mae'r gofynion hyn yn berthnasol i Loegr a byddai'n ddefnyddiol deall a oes gofynion tebyg yng ngweddill y DU ac felly cysylltu â'r rhain.

Rydym yn croesawu'n arbennig y pwyslais ar sicrhau nad yw pwysau masnachol yn llesteirio rhoi'r amser sydd ei angen ar gleifion ac yn sicrhau bod gan staff yr amser hwnnw i ddiwallu anghenion a bod prisiau clir a thryloyw, yn ogystal â gwybodaeth am gymhwysedd i gael cymorth ariannol o dan system y GIG, yn caniatáu i bobl wneud penderfyniadau gwybodus.

Credwn y gellid cael rhagor o fanylion am fannau eraill lle gellir darparu gofal llygaid a lle byddai cleifion yn agored i niwed i ryw raddau ee lleoliadau gofal preswyl, canolfannau dydd, llochesi digartrefedd, ysgolion arbennig a charchardai. Oherwydd er bod cartref yr unigolyn ei hun wedi'i restru, gellid ei ddehongli fel eiddo deiliad 'ar ei ben ei hun' yn y canllawiau ac nid yw'n berthnasol i'r lleoliadau a ddisgrifir uchod.

Amlinellir anawsterau dysgu ond mae hyn yn wahanol iawn i anableddau dysgu ac ni ddylid eu defnyddio'n gyfnewidiol. Gofynnwn i anabledd dysgu gael ei restru'n benodol a'i gynnwys fel marciwr posibl o ran bod yn agored i niwed o ystyried bod nifer yr achosion o broblemau golwg yn llawer uwch yn y grŵp hwn o gleifion ond mae'r dystiolaeth yn dangos eu bod yn llawer llai tebygol o gael y gofal llygaid sydd ei angen arnynt. Mae systemau iechyd yn defnyddio'r gair anabledd dysgu o ran ymyriadau gofal iechyd wedi'u targedu sydd eu hangen ar y grŵp cleifion hwn (ee nyrsys anabledd dysgu cofrestredig, archwiliad iechyd anabledd dysgu blynyddol gan feddygon teulu).

C2. A oes unrhyw beth ar goll o'r canllawiau neu a oes unrhyw beth arall y dylem ei ystyried?

"Gweler y sylw am gymhwyso'r gofynion ar gyfer addasiadau rhesymol yn benodol i bobl ag anabledd yn unig.

Crybwyllir plant ond byddai'n werth cael rhywfaint o wahaniaethu yn y canllawiau fel ei fod yn fwy penodol i blant, ac yn gysylltiedig â hyn a ddylid cael rhestr benodol o alluedd meddyliol a chroesgyfeirio at y gyfraith/safonau ar gydsynio.

Roeddem yn meddwl, o ystyried bod nifer o elusennau sydd â phrofiad o gefnogi cleifion mewn amgylchiadau agored i niwed, y gallai fod yn fuddiol cyfeirio at y rhain. Rydym yn cydnabod bod SeeAbility a Vision Care for Homeless People hefyd yn darparu gofal llygaid ac yn cyflogi cofrestreion sy'n rhwym wrth y canllawiau. Felly rydym yn deall y gallai hyn arwain at wrthdaro,

ond mae gennym adnoddau ar sut i wneud addasiadau yn ymarferol. Fel dewis arall, mae canllawiau cenedlaethol lechyd Cyhoeddus Lloegr ar addasiadau rhesymol mewn gofal llygaid i bobl ag anableddau dysgu (er nad yw'r rhain yn berthnasol i'r DU gyfan, maent yn ganllawiau a gymeradwywyd gan y llywodraeth.) Mae'n bosibl y bydd nodiadau darllen pellach yn ddefnyddiol ar gyfer y canllawiau.

Byddai hefyd yn werth nodi y gallai rhai cleifion fod yn delio ag effaith emosiynol diagnosis newydd o broblem golwg ac ar daith y llwybr cymorth gofal llygaid, felly gellid eu cyfeirio at gymorth emosiynol neu ymarferol, er enghraifft, drwy elusennau colli golwg cenedlaethol neu leol.

Roeddem yn meddwl tybed a fydd y Cyngor Optegol Cyffredinol yn argymhell bod cofrestreion yn cymryd rhan mewn hyfforddiant ychwanegol a allai helpu i addasu eu hymarfer a'u busnes i anghenion mwy o grwpiau cleifion sy'n agored i niwed. Byddem yn hapus i gynnig hyfforddiant ac fel y nodwyd yn flaenorol wrth y Cyngor Optegol Cyffredinol, mae SeeAbility wedi'i achredu i gynnig hyfforddiant gorfodol Oliver McGowan ar anabledd dysgu ac awtistiaeth.

“

C3. Sut gallwn ni wneud y canllawiau'n gliriach?

Dim Ymateb

C4. A oes unrhyw beth ar goll o'r canllawiau neu a oes unrhyw beth arall y dylem ei ystyried?

Dim ymateb

C5. A fydd y newidiadau sy'n cael eu cynnig yn cael effaith, boed hynny'n rhai cadarnhaol neu negyddol, ar y canlynol:

(a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

Ddim yn siŵr

(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Ddim yn siŵr

C6. A fyddai modd diwygio'r newidiadau sy'n cael eu cynnig er mwyn iddynt gael effaith gadarnhaol, neu fwy cadarnhaol, ar y canlynol:

(a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

Ddim yn siŵr

(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Ddim yn siŵr

C7. A fyddai modd diwygio'r newidiadau sy'n cael eu cynnig er mwyn iddynt beidio â chael effaith negyddol, neu gael effaith lai negyddol, ar y canlynol:

(a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

Ddim yn siŵr

(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Ddim yn siŵr

C8. A oes unrhyw agweddau ar ein cynigion a allai wahaniaethu yn erbyn rhanddeiliaid sydd â nodweddion penodol?

"c) Ddim yn siŵr"

C9. Os oes, a oes unrhyw agweddau ar ein cynigion a allai gael effaith gadarnhaol ar randdeiliaid sydd â nodweddion penodol?

"c) Ddim yn siŵr"

Allwn ni gyhoeddi eich ymateb?

Gallwch

Atebydd 6

Cwestiynau Cyffredinol

Ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad?

Ydw

Pa gategori sy'n disgrifio'r sefydliad rydych chi'n ymateb ar ei ran orau?

Corff cynrychioli/proffesiynol optegol

C1. Sut gallwn ni wneud y canllawiau'n gliriach?

“Paragraff 10: “Dylech ddefnyddio eich crebwyll proffesiynol i gymhwyso'r canllawiau i'ch ymarfer eich hun a'r amrywiaeth o leoliadau y gallwch fod yn gweithio ynddynt.” Awgrymu bod yr eglurhad canlynol yn well: “Dylech ddefnyddio eich crebwyll proffesiynol i gymhwyso'r canllawiau i'ch ymarfer eich hun a'r amrywiaeth o leoliadau yr ydych yn rhoi gofal llygaid ynddynt.”

Mae paragraff 15 yn datgan: “Er enghraifft, gall cleifion mewn gofal cartref gael eu hystyried yn agored i niwed oherwydd bod y gweithiwr gofal llygaid proffesiynol wedi dod i gartref y claf i ddarparu eu gofal. Awgrymu bod yr eglurhad canlynol yn well: “Er enghraifft, gall cleifion sy'n derbyn gofal llygaid mewn lleoliadau cartref/symudol gael eu hystyried yn agored i niwed oherwydd bod y gweithiwr gofal llygaid proffesiynol wedi dod i gartref y claf i ddarparu eu gofal.

“Paragraff 16: Gellid ehangu'r paragraff hwn i gynnwys lefelau dros dro a datblygol o fod yn agored i niwed. Mae claf a oedd yn agored i niwed y tro cyntaf maent yn profi poen yn llai tebygol o fod yn agored i niwed wrth i'r cyflwr wella. Mae Pwyllgor Optometrig Cymru yn credu bod hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun achosion Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol Cymru mewn gofal sylfaenol (fel cyflwyniadau rhagnodi annibynnol) sy'n cael eu rheoli'n draddodiadol mewn ysbyty, lle gall cleifion dderbyn gofal mewn lleoliad gwahanol i'r hyn y maent yn ei ddisgwyl.

“Paragraff 20: Mae'r frawddeg ganlynol yn aneglur: *Dim ond 68% o gleifion sy'n hyderus wrth reoli eu hiechyd llygaid eu hunain sy'n fodlon â'r profiad cyffredinol (o'i gymharu â 87% ar gyfartaledd). A ellid aralleirio hyn i osgoi amwysedd, gan y gallai ar hyn o bryd naill ai olygu bod y rhai nad ydynt yn mynd i ymgynghoriadau gofal llygaid (ac yn 'hunan-reoli'), neu bod y rhai sy'n teimlo'n hyderus yn eu gwybodaeth eu hunain am eu hiechyd llygaid personol, yn llai tebygol o fod yn fodlon â'u darpariaeth gofal llygaid.

Paragraff 22: Mae'n ymddangos bod y paragraff hwn yn gwrth-ddweud ei hun. Ni ddylai'r cofrestrai benderfynu pa ffactorau sy'n gwneud claf yn agored i niwed, ond rhaid iddo hefyd ddefnyddio barn broffesiynol i benderfynu beth

yw'r ffactorau hynny? Fodd bynnag, mae hyn yn cael ei egluro'n well ym mharagraffau 24-29.

Paragraff 33: Ystyried defnyddio 'practis' yn lle 'siop' er mwyn sicrhau cysondeb.

Paragraff 37: Mae hyn yn awgrymu “ymgyngchori â'ch corff proffesiynol neu gynrychioladol” ond nid yw'n awgrymu nac yn cysylltu â rôl y Cyngor Optegol Cyffredinol o ran cefnogi'r proffesiwn i ddeall a glynu'n well wrth y canllawiau cyhoeddedig.”

C2. A oes unrhyw beth ar goll o'r canllawiau neu a oes unrhyw beth arall y dylem ei ystyried?

“Paragraff 14: Mae Pwyllgor Optometrig Cymru yn credu y gall amgylchiadau agored i niwed gynnwys rhagfarn ddjarwybod gan yr ymarferydd, a allai roi pwysoliad i bob un o'r nodweddion yn y rhestr hon (nad yw'n gynhwysfawr)

Paragraff 15: Cred Pwyllgor Optometrig Cymru y gellid ehangu'r paragraff hwn. Gall cleifion agored i niwed gynnwys y rhai sy'n dangos eu bod yn dioddef o batholeg llygaid aciwt, mewn poen, nad oes ganddynt efallai gymaint o amser i ystyried ymateb pwylllog i driniaeth a gynigir, neu wneud penderfyniadau ar sail llai o wybodaeth.

Paragraff 27-31: Mae'r adran hon yn annog cofrestreion i fod yn effro i ffactorau sydd yn gwneud claf yn agored i niwed, sgrinio am newidiadau a chymryd camau drwy ddilyn gweithdrefnau adrodd yn y gweithle. Mae'r canlyniad hwn, yn anochel, yn fwy cyffredin mewn cleifion sy'n cael asesiadau Golwg Gwan, y mae gennym ni yng Nghymru lwybrau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ar waith ar eu cyfer, a sgrinio sy'n gyson yn genedlaethol ar gyfer nifer o ffactorau sy'n gwneud claf yn agored i niwed. Gallai'r canllawiau annog ymarferwyr i ystyried claf yn gyfannol, gan gynnig atgyfeirio at gyrff fel y gwasanaethau cymdeithasol lle nodir hynny, yn ogystal â pholisïau penodol yn y gweithle a allai fod ar waith.”

C3. Sut gallwn ni wneud y canllawiau'n gliriach?

“Paragraff 25: A ddylai'r testun “Trin claf rydych mewn perthynas â nhw arwain at ddiffyg gwrthrychedd...” fod yn benodol i “berthnasoedd rhywiol” neu a yw hwn i fod yn nodyn ehangach i beidio â thrin y rhai rydych mewn perthynas agos â nhw, yn unol â chanllawiau'r GMC?

Paragraff 40: Os nad oes modd cael caniatâd i ddatgelu pwy ydych chi, ni ddylech chi roi gwybod i'r claf. Gall rhoi gwybod i'r claf ei roi mewn mwy o berygl o niwed.”

C4. A oes unrhyw beth ar goll o'r canllawiau neu a oes unrhyw beth arall y dylem ei ystyried?

"Paragraff 20 a Pharagraff 39: Dylai unrhyw risg uniongyrchol o niwed i gofrestrai, cydweithiwr neu glaf, yn unol â'r protocol diogelu, arwain at uwchgyfeirio ar unwaith (a allai arwain at gysylltu â'r gwasanaethau brys) lle mae diogelwch yn cael blaenoriaeth dros gydsyniad i adrodd.

Paragraff 28: Rydym yn teimlo bod dyletswydd ar y Cyngor Optegol Cyffredinol i gydnabod bod diogelu'r cyhoedd, mewn amgylchiadau lle mae claf yn ceisio bod mewn perthynas neu fynd ar drywydd perthynas â chofrestrai, yn golygu cydnabod y rhagfarn y gallai hyn ei chael ar y cofrestrai sy'n darparu gofal. Gallai'r canllawiau awgrymu y gallai trosglwyddo gofal i weithiwr proffesiynol arall fod yn gam rhesymol."

C5. A fydd y newidiadau sy'n cael eu cynnig yn cael effaith, boed hynny'n rhai cadarnhaol neu negyddol, ar y canlynol:

(a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

Byddant

(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Byddant

Rhowch fanylion ychwanegol.

Cred Pwyllgor Optometrig Cymru, gan fod dogfennau canllaw ar gael yn rhwydd yn Gymraeg, na fydd y newidiadau hyn i ganllawiau yn cael unrhyw effaith negyddol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, nac yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn yr un modd â holl ddogfennau eraill y Cyngor Optegol Cyffredinol, bydd cyhoeddi yn Gymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg a bydd yn helpu i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymysg dysgwyr ac yn ehangach.

C6. A fyddai modd diwygio'r newidiadau sy'n cael eu cynnig er mwyn iddynt gael effaith gadarnhaol, neu fwy cadarnhaol, ar y canlynol:

(a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

Na

(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Na

Rhowch fanylion ychwanegol.

Dim Ymateb

C7. A fyddai modd diwygio'r newidiadau sy'n cael eu cynnig er mwyn iddynt beidio â chael effaith negyddol, neu gael effaith lai negyddol, ar y canlynol:

(a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

Na

(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Na

Rhowch fanylion ychwanegol.

Mae Pwyllgor Optometrig Cymru yn credu bod y Cyngor Optegol Cyffredinol wedi cymryd camau priodol a rhesymol i sicrhau nad oes unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg yn sgil y newidiadau arfaethedig i'r canllawiau.

C8. A oes unrhyw agweddau ar ein cynigion a allai wahaniaethu yn erbyn rhanddeiliaid sydd â nodweddion penodol?

"b) Nac oes"

C9. Os oes, a oes unrhyw agweddau ar ein cynigion a allai gael effaith gadarnhaol ar randdeiliaid sydd â nodweddion penodol?

"a) Oes"

Rhowch fanylion ychwanegol.

Nid yw'r cynigion yn nodi'r cofrestrai yn ôl unrhyw nodwedd y gellir ei diffinio drwy gydol y naill ddogfen na'r llall. Mae hwn yn gam i'w groesawu er mwyn gwneud y canllawiau mor gynhwysol â phosibl.

Allwn ni gyhoeddi eich ymateb?

Gallwch

Atebydd 7

Cwestiynau Cyffredinol

Ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad?

Ydw

Pa gategori sy'n disgrifio'r sefydliad rydych chi'n ymateb ar ei ran orau?

Corff cynrychioli/proffesiynol optegol

C1. Sut gallwn ni wneud y canllawiau'n gliriach?

"10. Dylech ddefnyddio eich crebwyll proffesiynol i gymhwyso'r canllawiau i'ch ymarfer eich hun a'r amrywiaeth o leoliadau y gallwch fod yn gweithio ynddynt.

Sylw: Dileu'r gair "gwaith" a rhoi yn ei le "ymgysylltu â'r ddarpariaeth o wasanaethau gofal llygaid sy'n cael eu rheoleiddio" er mwyn bod yn benodol bod hyn yn ymwneud â gofal llygaid, ac nid â swyddi eraill sydd gan gofrestreion nad ydynt yn ymwneud ag iechyd llygaid.

15. Gall amgylchiadau agored i niwed hefyd gynnwys y sefyllfa lle mae'r claf yn cwrdd â'r gweithiwr gofal llygaid proffesiynol. Er enghraifft, gall cleifion mewn gofal cartref gael eu hystyried yn agored i niwed oherwydd bod y gweithiwr gofal llygaid proffesiynol wedi dod i gartref y claf i ddarparu eu gofal.

Sylw: disodli "mewn gofal cartref" gydag "yn derbyn gofal cartref."

"

C2. A oes unrhyw beth ar goll o'r canllawiau neu a oes unrhyw beth arall y dylem ei ystyried?

"Oes

"Mewn llawer o achosion, byddai claf mewn amgylchiadau agored i niwed yn mynd i leoliad gofal iechyd gydag aelod o'r teulu, gofalwr neu ffrind. Gall canllawiau fod yn fuddiol ar reoli cydsyniad, a pha ddata a gwybodaeth am gleifion y dylid eu rhannu â'r aelod hwnnw o'r teulu, y gofalwr neu'r ffrind. Yn ogystal, byddai canllawiau ar sut i reoli sgysiau ynghylch hebrwng y claf yn yr apwyntiad yn ddefnyddiol. Gall y sefyllfaoedd hyn fod yn anodd, yn enwedig lle gallai fod yn aneglur a oes gan y trydydd parti yr awdurdod cyfreithiol i weithredu ar ran y claf, neu lle gallai ei bresenoldeb ddylanwadu'n anfwriadol ar allu'r claf i siarad yn rhydd. Byddai rhagor o gyngor ar sut i lywio drwy'r sgysiau hyn yn cael ei groesawu. Er enghraifft, pryd y gallai fod yn briodol gofyn am gael siarad â'r claf ar ei ben ei hun, neu sut i gadw cyfrinachedd wrth barhau i sicrhau cymorth priodol.

Gellid cynnwys canllawiau ar yr egwyddorion ar gyfer ymateb i gleifion sydd â thrawma gofal iechyd blaenorol.

Gall canllawiau fod yn briodol ar roi cyngor i gofrestreion os ydyn nhw eu hunain yn dod yn agored i niwed (hyd yn oed os yw hynny dros dro) o ganlyniad i weld claf agored i niwed. Er enghraifft, os bydd claf yn troi'n ymosodol ar lafar neu'n gorfforol - (a allai godi oherwydd ffactorau sy'n gwneud y claf yn agored i niwed).

Allgáu digidol - Gellid ystyried sut gallai systemau archebu ar-lein neu gyfathrebu digidol yn unig roi rhai grwpiau dan anfantais.

Bod yn agored i niwed yn ariannol - Byddai pwyslais cryfach ar brisio tryloyw a chymorth i lywio hawliau'r GIG yn ddefnyddiol.

Croestoriadedd - Byddai cydnabyddiaeth fwy penodol o ffactorau sy'n gwneud pobl yn agored i niwed sy'n gorgyffwrdd (ee iaith ac anabledd ac incwm isel) a sut y gallant fod yn dwysáu rhwystrau i ofal yn ddefnyddiol.

Gall cofrestreion elwa o dabl sy'n crynhoi eu dyletswyddau cyfreithiol yn ôl rôl (ee myfyriwr o'i gymharu â chofrestrai o'i gymharu â busnes) a/neu boster sy'n dangos siart llif neu goeden benderfynu ar gyfer sut i reoli gwahanol sefyllfaoedd yn ymarferol.

C3. Sut gallwn ni wneud y canllawiau'n gliriach?

"40. Mewn amgylchiadau lle nad oes modd cael caniatâd i ddatgelu pwy ydych chi, dylech chi roi gwybod i'r claf. Edrychwch ar ein dogfennau canllaw ar ganiatâd, datgelu gwybodaeth gyfrinachol a chodi llais i gael rhagor o wybodaeth.

Sylw: Mae angen posibl i aralleirio er mwyn gwneud y paragraff hwn yn gliriach.

41. Os ydych chi wedi bod mewn sefyllfa lle rydych chi wedi profi ymddygiad rhywiol amhriodol, dylech chi roi gwybod i'ch rheolwr llinell os ydych chi'n gallu gwneud hynny, neu unigolyn priodol arall yn eich gweithle a fydd yn gallu ymchwilio i'r sefyllfa.

Sylw: disodli "ymddygiadau" gydag "ymddygiad" er mwyn bod yn glir bod hyd yn oed un digwyddiad yn annerbyniol.

42. Mae gennych gyfrifoldeb i godi llais a chymryd camau os byddwch yn dod yn ymwybodol o ymddygiad(au) rhywiol amhriodol yn eich gweithle. Gallai hyn gynnwys herio'r ymddygiad gyda'r cyflawnwr, rhoi gwybod i reolwr llinell, neu gynnig cymorth i'r unigolyn a brofodd yr ymddygiad.

Sylw: A ellid rhoi rhagor o fanylion am yr hyn y byddai "herio" yr ymddygiad yn ei olygu, ac ystyried unrhyw ganlyniadau anfwriadol a allai godi o ganlyniad i gofrestrai yn herio ymddygiad rhywun.

C4. A oes unrhyw beth ar goll o'r canllawiau neu a oes unrhyw beth arall y dylem ei ystyried?

Oes

Byddai rhagor o arweiniad ynghylch beth sy'n digwydd ar ôl i adroddiad am gamymddwyn rhywiol gael ei wneud yn cael ei groesawu. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am ba gymorth sydd ar gael i gofrestreion sydd wedi cael eu cyhuddo (a allai fod yn gyhuddiad ar gam mewn rhai achosion), a ble y gallant fynd i gael cyngor neu gynrychiolaeth." Byddai sicrhau bod cyfeiriadau clir at ffynonellau cymorth proffesiynol neu gyfreithiol yn helpu i hyrwyddo tegwch a thryloywder drwy gydol y broses.

Er bod y canllawiau'n rhoi disgwyliadau clir ynghylch cadw at ffiniau rhywiol, gellid rhoi ystyriaeth bellach i sut mae hyn yn berthnasol yng nghyd-destun cyfathrebu digidol - yn enwedig gyda'r defnydd cynyddol o gyfryngau cymdeithasol a llwyfannau ar-lein gan fusnesau ac unigolion cofrestredig. Er enghraifft, mae gan lawer o bractisau optegol bresenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol erbyn hyn, gydag aelodau unigol o'r tîm neu reolwyr yn gysylltiedig â chyfrifon sy'n caniatáu rhyngweithio cyhoeddus a phreifat. Gall fod yn ddefnyddiol cynnwys cyngor mwy penodol ar yr hyn sy'n gyfystyr â chyswllt digidol proffesiynol a phriodol, yn enwedig lle gellir anfon negeseuon personol at gleifion neu gydweithwyr y tu allan i angen clinigol. Byddai ffiniau clir yn y maes hwn yn helpu cofrestreion i ddeall yn well beth sy'n cael ei ystyried yn dderbyniol, a lle gallai rhyngweithio ddod yn amhriodol.

C5. A fydd y newidiadau sy'n cael eu cynnig yn cael effaith, boed hynny'n rhai cadarnhaol neu negyddol, ar y canlynol:

- (a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Dim Ymateb

Rhowch fanylion ychwanegol.

C6. A fyddai modd diwygio'r newidiadau sy'n cael eu cynnig er mwyn iddynt gael effaith gadarnhaol, neu fwy cadarnhaol, ar y canlynol:

- (a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Dim Ymateb

Rhowch fanylion ychwanegol.

Dim Ymateb

C7. A fyddai modd diwygio'r newidiadau sy'n cael eu cynnig er mwyn iddynt beidio â chael effaith negyddol, neu gael effaith lai negyddol, ar y canlynol:

(a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Dim Ymateb

Rhowch fanylion ychwanegol.

C8. A oes unrhyw agweddau ar ein cynigion a allai wahaniaethu yn erbyn rhanddeiliaid sydd â nodweddion penodol?

Dim Ymateb

C9. Os oes, a oes unrhyw agweddau ar ein cynigion a allai gael effaith gadarnhaol ar randdeiliaid sydd â nodweddion penodol?

Dim Ymateb

Allwn ni gyhoeddi eich ymateb?

Gallwch

Atebydd 8

Cwestiynau cyffredinol

Ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad?

Ydw

Pa gategori sy'n disgrifio'r sefydliad rydych chi'n ymateb ar ei ran orau?

Corff cynrychioli/proffesiynol optegol

C1. Sut gallwn ni wneud y canllawiau'n gliriach?

"Paragraffau 24-27 Rydym yn poeni bod y cyfrifoldeb ar y cofrestrai optegol yn rhy fawr - dim ond cwestiynau rhesymol sy'n ymwneud â gofal iechyd optegol y gallwn eu gofyn. Nid yw'r cofrestreion mewn sefyllfa debyg i ymarferwyr gofal iechyd eraill, meddyg teulu er enghraifft, a allai fod mewn sefyllfa i ystyried iechyd cyffredinol yn fanwl.

Paragraff 48 - Mae amlygu "prawf golwg am ddim" a hefyd "talebau gofal llygaid" yn derminoleg anghywir. Gan gymryd eich bod yn cyfeirio at system Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol y GIG, dylai ddweud "prawf llygaid a ariennir gan y GIG" a hefyd "talebau sbectol y GIG". Roedd "Talebau Gofal Llygaid" yn gynllun llygaid corfforaethol wedi'i frandio a gallai hyn arwain at ddryswch."

C2. A oes unrhyw beth ar goll o'r canllawiau neu a oes unrhyw beth arall y dylem ei ystyried?

"Mae'n bwysig cydnabod bod rhai o'r anghydraddoldebau a brofir gan gleifion - yn enwedig y rhai mewn amgylchiadau agored i niwed - wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â'r tanariannu cronig ar gyfer Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol y GIG.

Mae ffi bresennol profion llygaid Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol yn ddychrynlyd o isel ac nid yw wedi cyd-fynd â chwyddiant na gwir gost cynnal archwiliad llygaid trylwyr sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Nid yw'n ymarferol yn ariannol rhoi'r amser a'r gofal sydd wir eu hangen ar bob claf, yn enwedig y rheini sydd ag anghenion cymhleth, o fewn cyfyngiadau'r strwythur ffioedd presennol. Mae hyn yn creu rhwystr strwythurol i ofal teg, er gwaethaf bwriadau gorau'r ymarferydd.

Ar ben hynny, mae rhewi gwerthoedd talebau optegol y GIG yn barhaus wedi cael effaith yn y byd go iawn ar gleifion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is. Mae llawer yn teimlo embaras neu'n ofidus wrth ddarganfod nad yw gwerthoedd eu talebau GIG bellach yn cynnwys hyd yn oed y pâr mwyaf sylfaenol o sbectol. Mae hyn yn tanseilio diben y cynllun ac mae perygl o ehangu'r anghydraddoldebau iechyd - yn enwedig i'r rheini sydd eisoes yn agored i niwed neu'n byw mewn amddifadedd.

Os ydym o ddifrif ynghylch gwella gofal i gleifion mewn amgylchiadau agored i niwed, rhaid inni fynd i'r afael â'r rhwystrau ariannol systemig sy'n ei gwneud yn fwyfwy anodd i bractisau ddarparu'r safon gofal y mae'r cleifion hyn yn ei haeddu. Mae cyllid cynaliadwy ar gyfer ffioedd profion golwg y GIG a gwerthoedd talebau yn hanfodol er mwyn sicrhau tegwch o ran mynediad a chanlyniadau.'

“

C3. Sut gallwn ni wneud y canllawiau'n gliriach?

Mae hon yn ddogfen drylwyr yn ei dadansoddiad o'r mesurau diogelu sydd ar waith i staff yn y gweithle ac i gleifion yn yr amgylchedd optegol, ac rydym yn cefnogi'r egwyddorion cyffredinol sydd ar waith. Fodd bynnag, byddem hefyd yn hoffi gweld ystyriaeth tuag at ddiogelu aelodau staff rhag cleifion a allai am lawer o resymau, fynd yn rhy bell o ran ymddygiad derbyniol, heb unrhyw fai ar y cofrestrai. Rhaid cofio y gellir rhoi aelodau staff hefyd mewn sefyllfaoedd agored i niwed, yn enwedig wrth weithio mewn 'ystafell drws caeedig' ar eu pen eu hunain. Ni ellir rhagdybio bod y cofrestrai mewn sefyllfa o bŵer. Dylai diogelwch staff a diogelu fod yn hollbwysig i'r cyflogwr, a theimlwn y dylai'r canllawiau gydnabod hyn.

C4. A oes unrhyw beth ar goll o'r canllawiau neu a oes unrhyw beth arall y dylem ei ystyried?

